Alwyn Jones
Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Dyddiad / Date: 10/01/2024

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Ymweliad Archwiliad Gwelliant â gwasanaethau oedolion a phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau ymweliad Archwiliad Gwelliant â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam rhwng 24 Hydref 2023 a 2 Tachwedd 2023. Hwn oedd yr Archwiliad Gwelliant gwasanaethau plant ac oedolion yn dilyn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad (AGP) ym mis Mehefin 2022.

## 1. Cyflwyniad

Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; llinellau ymholi allweddol; a'r safonau ansawdd yn y *Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

Canolbwyntiodd yr Archwiliad Gwelliant ar y cynnydd a wnaed yn y meysydd canlynol y nodwyd bod angen eu gwella yn ystod ein harolygiad gwerthuso perfformiad ym mis Mehefin 2022.

| Egwyddor | **Meysydd i'w gwella a nodwyd yn** yr arolygiad gwerthuso perfformiad ym mis Mehefin 2022 | **Cynnydd a nodwyd yn ystod yr Archwiliad Gwelliant.** |
|---|---|---|
| Pobl | **Gwasanaethau Plant:**<br>Mae angen ceisio safbwyntiau'r plant yn gyson a'u cofnodi'n briodol.<br><br>Gweithlu digonol a chymwys sydd â'r cymwysterau cywir i fodloni dyletswyddau statudol. | <br>Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal.<br><br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ansawdd y trefniadau goruchwylio, goruchwyliaeth gan reolwyr a chymorth. | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach. |
| Pobl | **Gwasanaethau Oedolion:**<br>Diwallu anghenion gofalwyr a chynnig asesiadau gofalwyr yn unol â'r dyletswyddau statudol.<br><br>Mae angen datblygu'r systemau sicrhau ansawdd a'r wybodaeth am berfformiad.<br><br>Gwelliannau o ran ansawdd y trefniadau goruchwylio, goruchwyliaeth gan reolwyr a chymorth. | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach.<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach.<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach. |
| Atal | **Gwasanaethau Plant:**<br>Ffocws ar atal/ymyrryd yn gynnar; sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir, ar yr adeg gywir ac na chaiff achosion eu cau yn rhy gynnar. | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |
| Atal | **Gwasanaethau Oedolion:**<br>Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth.<br><br>Amseroldeb asesiadau a model darparu cynaliadwy wedi'i roi ar waith er mwyn helpu pobl i fyw'n annibynnol. | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach.<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach. |
| Llesiant | **Gwasanaethau Plant:**<br>Sicrhau bod pob asesiad yn mynd i'r afael â phob un o'r pum maes asesu allweddol.<br><br>Cofnodi arferion mewn perthynas â grwpiau o frodyr a chwiorydd. | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal.<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach. |

| | | |
|---|---|---|
| Llesiant | **Gwasanaethau Oedolion:** Mae'r pum elfen asesu allweddol wedi cael eu cynnwys, ac eir i'r afael â chymhwysedd yn unol â'r canllawiau statudol. | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach. |
| Partneriaeth | **Gwasanaethau Plant:** Defnydd cyson o drothwyon cadarn gan bob partner er mwyn cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |
| Partneriaeth | **Gwasanaethau Oedolion:** Ymarferwyr yn meithrin cydberthnasau gwaith proffesiynol - cyd-gynhyrchu. | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |

## 2. Crynodeb

- Mae'r uwch-reolwyr a'r aelodau arweiniol wedi cyflwyno diwylliant newydd o ddisgwyliadau a safonau uwch ym maes gofal cymdeithasol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae tîm arwain cryf o fewn y gwasanaethau cymdeithasol. Ym mis Medi 2022, cytunodd y Bwrdd Gweithredol i ehangu cwmpas y Bwrdd Gwelliannau Cyflym ar gyfer Plant i gynnwys gwella gwasanaethau oedolion yn ogystal â gwasanaethau plant, gan ffurfio Bwrdd Gwelliannau Gofal Cymdeithasol ar y Cyd. Mae'r bwrdd wedi cael effaith gadarnhaol drwy oruchwyliaeth well o wasanaethau plant ac oedolion a chydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a thrwy sicrhau bod prosesau craffu digonol ar waith a bod digon o wybodaeth ar gael am berfformiad.
- Mae'r ymarferwyr yn gadarnhaol am eu profiad o weithio i'r awdurdod lleol. Mae morâl yn dda ar y cyfan, ac mae'r staff yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn dweud bod y rheolwyr yn gefnogol ac yn hygyrch. Cafwyd adborth cadarnhaol gan staff, gyda'r mwyafrif o'r staff a ymatebodd o'r gwasanaethau plant ac oedolion yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan gydweithwyr a rheolwyr i wneud eu gwaith.
- Roedd y rheolwyr yn canmol y rhaglen arweinyddiaeth a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol i helpu rheolwyr/arweinwyr i ddatblygu eu sgiliau, gan gynnwys datblygu diwylliant ac ymarfer tîm, rheoli perfformiad, sicrhau ansawdd a hyfforddi a mentora. Mae'r sgiliau hyn yn bwysig i yrru cynlluniau gwella ymlaen a chefnogi rheolwyr, yn enwedig yn ystod cyfnodau pan fydd pwysau ar y gweithlu, pryder cynyddol ymhlith y gweithlu a newid sylweddol.

- Mae'r uwch-reolwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd mynediad at ymyriadau cynnar er mwyn lleihau'r angen am wasanaethau statudol ac maent yn canolbwyntio ar feithrin a hyrwyddo cryfderau a gwydnwch pobl yn unol ag egwyddorion Deddf 2014. Yn ystod yr archwiliad gwelliant, gwelsom dystiolaeth glir o'r gwelliannau a'r cynnydd a wnaed mewn sawl maes sydd wedi arwain at ganlyniadau gwell i bobl.
- Er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae'r uwch-reolwyr yn glir bod y broses o wella gwasanaethau oedolion a phlant yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i'r awdurdod lleol. Yn enwedig o fewn gwasanaethau plant, lle mae natur fregus sefyllfa'r gweithlu yn parhau i fod yn risg sylweddol i ymdrechion yr awdurdod lleol i gyflawni a chynnal gwelliannau. Mae sicrhau parhad cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol yn bwysig gan fod meysydd allweddol o hyd lle mae angen gweithredu er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ganlyniadau llesiant pobl Wrecsam.

## 3. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Caiff canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth eu cyflwyno isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Pobl – Gwasanaethau Plant

### Cryfderau

- Cymerwyd camau i sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei geisio a'i glywed yn gyson, ac y caiff profiad bywyd y plentyn ei ystyried. Gwelsom rannau o asesiadau, adolygiadau a chofnodion ymweliadau a oedd wedi'u hysgrifennu'n uniongyrchol i'r plentyn/person ifanc, gan gydnabod dymuniadau'r plentyn ac esbonio'r canlyniad a'r penderfyniadau a wnaed mewn iaith syml. **Mae'r ymarfer hwn yn gadarnhaol; mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau y caiff yr ymarfer hwn ei ymgorffori ymhellach a bod dull gweithredu cyson yn cael ei weithredu ym mhob rhan o'r gwasanaeth.**
- Mae gwybodaeth am berfformiad ac archwiliadau sicrhau ansawdd yn parhau i lywio gwelliannau yng ngwasanaethau plant. Mae gan yr awdurdod lleol broses ar waith i archwilio ffeiliau a darparu gwybodaeth gywir am ymarfer i uwch-arweinwyr a rheolwyr a chyfleoedd i ddysgu o themâu sy'n dod i'r amlwg.

### Meysydd i'w Gwella

- Mae recriwtio, cadw a llesiant y gweithlu yn flaenoriaeth i'r awdurdod lleol. Cymerwyd camau sylweddol i fynd i'r afael â'r problemau recriwtio a chadw, er enghraifft ymgyrch farchnata, a'r ymrwymiad i'r dull "datblygu mewnol" a noddi

cyflogeion i astudio Gradd BA mewn Gwaith Cymdeithasol. Er gwaethaf y camau a gymerodd yr awdurdod lleol, mae sefyllfa'r gweithlu yn fregus o hyd. Mae nifer mawr o staff asiantaeth yn cael eu defnyddio i lenwi bylchau mewn rhai timau, gan gynnwys rhai swyddi rheoli. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i weithio tuag at sicrhau bod ganddo weithlu digonol a chynaliadwy, gyda'r capasiti a'r gallu i gyflawni cyfrifoldebau statudol yn gyson.**

- Lansiodd yr awdurdod lleol bolisi goruchwylio newydd yn ddiweddar a nododd y rhan fwyaf o ymarferwyr eu bod yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd gan reolwyr. Fodd bynnag, roedd y ffeiliau goruchwylio a welsom yn amrywio o ran cynnwys ac ansawdd, a gwelsom nad oedd y templedi a ddarperir gyda'r polisi goruchwylio yn cael eu defnyddio'n gyson ym mhob rhan o'r gwasanaethau plant. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff pob ymarferydd sesiynau goruchwylio yn unol â'r polisi goruchwylio ac y cânt eu cofnodi'n briodol yn yr amserlen oruchwylio.**
- Er bod rhieni/gofalwyr plant anabl yn cael y cyfle i deilwra a rheoli eu cymorth eu hunain drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol, mae'r broses o recriwtio cynorthwywyr personol yn heriol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarferwyr yn archwilio'n gyson gyda rhieni/gofalwyr y modelau a'r ffyrdd gwahanol o ddarparu cefnogaeth er mwyn sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith yn effeithiol, eu bod yn ymateb i'w gofynion a'u bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn.**
- **Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod gwasanaethau cymorth ac opsiynau seibiannau byr ar gael i gefnogi rhieni/gofalwyr plant anabl.**

## Pobl – Gwasanaethau Oedolion

### Cryfderau

- Ar y cyfan, mae lleisiau pobl yn cael eu clywed, mae eu dewisiadau'n cael eu parchu ac mae llawer o bobl yn llwyddo i gyflawni canlyniadau a nodwyd ganddynt.
- Yn debyg i'r gwasanaethau plant, mae'r broses recriwtio a chadw yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r gwasanaethau oedolion. Gwnaed gwaith cadarnhaol i wella datblygiad gyrfa yn y gwasanaethau oedolion yn ogystal ag ymrwymiad i ddull "datblygu mewnol" a noddi cyflogeion i astudio Gradd BA mewn Gwaith Cymdeithasol neu Radd BA mewn Therapi Galwedigaethol.

### Meysydd i'w Gwella

- Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i gefnogi gofalwyr ac mae'n ymwybodol o'r angen i allu dangos effaith y gwaith hwn. Gwelsom rywfaint o ymarfer da, ond nid oedd ymarferwyr bob amser yn glir o ran a oedd asesiadau gofalwyr wedi cael eu cynnal gan y trydydd sector, ac os felly, beth oedd y canlyniadau. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod lleisiau gofalwyr yn cael eu clywed bob amser, a bod ymarfer cyson ar waith wrth gynnig a chynnal**

**asesiadau yn ogystal â rhoi mwy o ffocws ar sicrhau na chaiff cyfleoedd i gefnogi gofalwyr eu colli na'u hoedi**.

- Lansiwyd polisi goruchwylio newydd yn ddiweddar, a nododd y rhan fwyaf o ymarferwyr eu bod yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd gan reolwyr. Fodd bynnag, roedd y ffeiliau goruchwylio a welsom yn amrywio o ran cynnwys ac ansawdd. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff ymarfer ei oruchwylio mewn modd cadarn gan y tîm rheoli ac y cynhelir sgyrsiau myfyriol, gan gofnodi digon o wybodaeth i ddangos y penderfyniadau a wnaed ac i ddangos bod y camau gweithredu y cytunwyd arnynt wedi'u cwblhau.**
- Ers yr arolygiad gwerthuso perfformiad, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu systemau sicrhau ansawdd a gwybodaeth am berfformiad, gan arwain at rai datblygiadau cadarnhaol o ran ymarfer yn y gwasanaethau oedolion. Mae hwn yn faes blaenoriaeth i uwch-reolwyr sy'n cydnabod yr angen i sicrhau bod rheolwyr yn goruchwylio ymarfer rheng flaen a'r broses o wneud penderfyniadau yn well a bod modd iddynt gael sicrwydd bod y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir yn ddiogel ac yn effeithiol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff systemau sicrhau ansawdd a gwybodaeth am berfformiad eu cryfhau ymhellach a'u hymgorffori'n llawn ym mhob rhan o'r gwasanaethau oedolion.**
- Er bod tystiolaeth i ddangos bod pobl yn cael eu cefnogi gan eiriolwyr anffurfiol i gymryd rhan mewn asesiadau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ni chawsom sicrwydd bod yr angen am eiriolaeth yn cael ei ystyried yn gyson gan bob ymarferydd. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob ymarferydd yn deall pwysigrwydd eiriolaeth ac y caiff eiriolaeth ffurfiol ei chomisiynu, ei chynnig a'i darparu yn ôl yr angen.**

## <u>Atal – Gwasanaethau Plant</u>

### Cryfderau

- Mae'r broses o wneud penderfyniadau yn y tîm un pwynt mynediad ar gyfer plant yn amserol ar y cyfan, ac ymdrinnir â'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau yn effeithlon ac mewn modd cymesur. Mae'r camau gweithredu yn aml yn cynnwys cynnal dadansoddiad o gronolegau er mwyn helpu i wneud penderfyniadau, ochr yn ochr â phrosesau cyfathrebu cynhwysfawr â gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn rhannu a chasglu gwybodaeth. Mae ymarferwyr un pwynt mynediad yn sicrhau bod llinellau cyfathrebu clir ar waith â gweithwyr proffesiynol lle na ddatblygodd y cyswllt, neu lle cafodd camau gweithredu eu neilltuo i unigolyn/sefydliad heblaw'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Yn gyffredinol, caiff cynlluniau gofal a chefnogaeth/amddiffyn plant eu hadolygu gan grwpiau craidd rheolaidd â lefelau presenoldeb da ac mewn cyfarfodydd plentyn mewn angen. Mae llawer o deuluoedd yn cael budd o amrywiaeth eang o wasanaethau, gan gynnwys cymorth cyffuriau, alcohol ac

iechyd meddwl arbenigol. Mae hefyd amrywiaeth eang o gymorth ar gael i blant sydd wedi cael eu hamlygu i achosion o gam-drin domestig.
- Drwy ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar a mentrau eraill, megis cymorth i warcheidwaid arbennig, llwyddwyd i gyfrannu at y lleihad a welwyd yn y nifer o blant sy'n derbyn gofal. Maes arall sy'n enghraifft o ymarfer cadarnhaol yw'r lleihad a welwyd dros y 12 mis diwethaf yn y nifer o blant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant.

**Meysydd i'w gwella**

- Yn debyg i awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn wynebu pwysau mewn perthynas â digonolrwydd lleoliadau cofrestredig priodol i blant sy'n derbyn gofal. Ar adeg yr archwiliad gwelliant, nid oedd unrhyw blant wedi'u lleoli mewn gwasanaethau heb eu cofrestru. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gynlluniau ar waith i gynyddu digonolrwydd y ddarpariaeth breswyl ac i ehangu ei wasanaeth maethu. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau nad yw plant yn cael eu lleoli mewn gwasanaethau anghofrestredig a rhaid iddo barhau â'i ymdrechion i ddod o hyd i leoliadau cofrestredig addas.**

## <u>Atal – Gwasanaethau Oedolion</u>

**Cryfderau**

- Ers yr arolygiad gwerthuso perfformiad, mae'r awdurdod lleol wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau un pwynt mynediad ac wedi datblygu achos busnes yn amlinellu ei gynlluniau i ail-ddylunio drws ffrynt gwasanaethau oedolion. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol a gwelwyd rhai gwelliannau o ran amseroldeb asesiadau un pwynt mynediad.
- Mae rhai **datblygiadau cadarnhaol wedi cael eu rhoi ar waith** i fynd i'r afael â rhestrau aros ac i sicrhau y caiff model darparu cynaliadwy ei weithredu er mwyn helpu pobl i fyw'n annibynnol. Un enghraifft o hyn yw'r canllaw a ddatblygwyd gan Therapyddion Galwedigaethol, sef 'Canllaw i helpu gyda chyfarpar ac ymolchi.' Mae'r canllaw yn rhoi gwybodaeth a chyngor ar sut y gall pobl hyrwyddo eu hannibyniaeth a sicrhau eu diogelwch eu hunain.
- Ar adeg yr arolygiad gwerthuso perfformiad, fel y gwelwyd hefyd mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, roedd pwysau sylweddol ar gapasiti'r farchnad gofal cartref yn Wrecsam. Gwelsom fod y sefyllfa wedi gwella, gyda chapasiti ychwanegol yn cael ei ddarparu gan y sector annibynnol sy'n galluogi'r awdurdod lleol i ddarparu gofal cartref a chefnogaeth yn amserol i'r rhan fwyaf o bobl sydd ei angen. **Caiff pobl eu cefnogi i ddychwelyd adref o'r ysbyty mewn modd amserol ac mae pwysigrwydd rhyddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol yn cael ei ddeall ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r awdurdod lleol.**

**Meysydd i'w Gwella**

- **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i weithio tuag at sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth, cyngor a chymorth yn unol â Deddf 2014.**
- Mae amseroldeb asesiadau a chymorth therapi galwedigaethol wedi gwella ond mae angen gwneud gwelliannau pellach. **Rhaid i uwch-reolwyr barhau i ganolbwyntio ar yr angen i sicrhau bod rhestrau aros yn cael eu lleihau a bod model darparu cynaliadwy yn cael ei weithredu er mwyn helpu pobl i fyw'n annibynnol.**
- Prin iawn oedd y dystiolaeth a welsom o drafodaethau amlddisgyblaethol ynglŷn â chyfleoedd i ail-alluogi, technoleg gynorthwyol neu drefniadau amgen llai cyfyngol na gofal preswyl. Mae'n bosibl fod hyn yn rhannol oherwydd diffyg argaeledd cymorth ail-alluogi, y mae'r awdurdod lleol yn ei gydnabod. **Mae'r awdurdod lleol yn gweithio tuag at gryfhau ei wasanaeth ailalluogi a rhaid iddo sicrhau na chaiff cyfleoedd ar gyfer gwaith ataliol eu colli.**
- Yn rhai o'r cofnodion gofal cymdeithasol y gwnaethom eu hadolygu, gwelsom fod yr awdurdod lleol yn dibynnu'n ormodol ar becynnau gofal/cefnogaeth ac nad oedd digon o ystyriaeth wedi ei roi i gymorth ataliol i sicrhau bod pobl mor annibynnol â phosibl ac i gefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau personol. **Rhaid i ymarferwyr gael eu cefnogi i archwilio datrysiadau creadigol a phwrpasol er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o'r holl adnoddau sydd ar gael ac i sicrhau bod pobl yn cael y gofal/cefnogaeth gywir ar yr adeg gywir.**

**<u>Llesiant – Gwasanaethau Plant</u>**

**Cryfderau**

- Mae tîm dyletswydd brys y gwasanaethau cymdeithasol yn ymateb mewn modd amserol a chymesur i argyfyngau sy'n digwydd y tu allan i oriau agor arferol er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant plant a phobl ifanc.
- Roedd llawer o'r cofnodion gofal cymdeithasol a welsom yn dangos bod yr ymateb i'r risg o niwed sylweddol yn amserol ac yn effeithiol. Roedd yr asesiadau adran 47 a welwyd yn dangos bod prosesau casglu gwybodaeth dda ar waith ac roedd tystiolaeth bod plant yn cael eu gweld/eu gweld ar eu pen eu hunain fel y bo'n briodol.
- Roedd nifer o'r asesiadau a welsom yn seiliedig ar gryfderau ac yn archwilio'r pum elfen allweddol yn dda. Roedd hyn yn dangos dealltwriaeth ehangach o gyd-destun y teulu a ffocws ar risg. Gwelsom gronolegau a gwybodaeth hanesyddol yn cael eu defnyddio i lywio prosesau gwneud penderfyniadau ac asesiadau.
- Mae sicrhau cyswllt rhwng plant ac aelodau o'r teulu yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r awdurdod lleol. Mewn un achos, gwelsom ymarfer cadarnhaol

gan weithiwr cymdeithasol a oedd yn trefnu ac yn hwyluso amser teulu ar gyfer grŵp mawr o frodyr a chwiorydd.
- Mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud i lawer o'r dangosyddion perfformiad mewn perthynas â chydymffurfio ag amserlenni statudol, gan gynnwys cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol, adolygiadau amddiffyn plant ac adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal.

**Meysydd i'w gwella**

- Yn un o'r cofnodion gofal cymdeithasol a welsom, roedd oedi sylweddol a diffyg cynllunio diogelwch gan fod y gweithiwr dynodedig wedi bod yn absennol o'r gwaith yn annisgwyl. **Dylai'r awdurdod lleol adolygu ei drefniadau er mwyn sicrhau bod ganddo drefniadau cadarn ar waith i fonitro llwythi gwaith ymarferwyr pan fyddant yn absennol o'r gwaith**.
- Gwelsom fod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r trefniadau ar gyfer cadw cofnodion mewn perthynas â grwpiau o frodyr a chwiorydd. Dylid gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau ei bod yn haws nodi cryfderau pob plentyn a/neu'r cymorth y mae pob plentyn yn ei gael yn y cofnodion gofal cymdeithasol.

**<u>Llesiant – Gwasanaethau Oedolion</u>**

**Cryfderau**

- Fel y gwelwyd yn ystod gweithgarwch blaenorol, roedd ymateb amserol a chymesur i adroddiadau diogelu ym maes diogelu oedolion. Caiff yr adroddiadau eu sgrinio, a chaiff yr ymholiadau eu cynnal yn unol â'r gofynion statudol, gyda'r gwaith dadansoddi a'r penderfyniadau yn cael eu cofnodi'n glir, gyda ffocws ar sicrhau bod pobl yn ddiogel a bod eu llesiant yn cael ei hyrwyddo.
- Caiff lleisiau'r rhan fwyaf o bobl eu clywed a chaiff eu canlyniadau personol eu cofnodi. Gwelsom rai bywgraffiadau a manylion amgylchiadau personol manwl a chynhwysfawr a oedd yn dangos beth sy'n bwysig i bobl.
- Yn dilyn yr arolygiad gwerthuso perfformiad, gwnaeth yr awdurdod lleol gydnabod bod angen iddo wneud rhagor o waith er mwyn sicrhau bod pob ymarferydd yn y gwasanaethau oedolion yn gweithio'n unol â phedair egwyddor Deddf 2014 ac y caiff hyn ei adlewyrchu'n gyson yn yr asesiadau a'r cynlluniau gofal a chefnogaeth. Comisiynwyd hyfforddiant gloywi a chafodd ei ddarparu i bob ymarferydd a rheolwr. Mae'r ddogfennaeth yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion statudol.

**Meysydd i'w Gwella**

- Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod yr asesiadau yn seiliedig ar gryfderau yn gyson ac y caiff asedau a ffynonellau cymorth cymunedol eu harchwilio. Rydym yn cydnabod y gallai'r diffyg manylder ddeillio'n rhannol o strwythur y ffurflenni, ond, **rhaid ymgymryd â rhagor o waith er mwyn**

**sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu cefnogi i gynnal sgyrsiau yn seiliedig ar gryfderau ac yr eir i'r afael â'r pum elfen asesu allweddol a chymhwysedd yn unol â'r canllawiau statudol.**

**Partneriaethau – Gwasanaethau Plant**

**Cryfderau**

- Yn y rhan fwyaf o'r cofnodion gofal cymdeithasol y gwnaethom eu hadolygu, gwelsom dystiolaeth fod ymarferwyr yn meithrin cydberthynas waith broffesiynol â phobl yn seiliedig ar gydweithrediad a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig. Yn ystod un o'r cyfweliadau olrhain, roedd y person ifanc yn gadarnhaol iawn am ei chydberthynas â'i gweithiwr cymdeithasol a dywedodd **"mae'n gwrando ac yn gwneud pethau yn gyflym"**.
- Disgrifiodd y rheolwyr a'r ymarferwyr gydberthnasau gweithredol sefydledig â gweithwyr iechyd, yr heddlu, y sector addysg, darparwyr a'r trydydd sector a gwelsom ymrwymiad clir i gydweithio.
- Mae'r trefniadau un pwynt mynediad wedi galluogi ymarferwyr o sectorau a gwasanaethau gwahanol i gael eu cydleoli ac i gydweithio'n ddyddiol. Mae buddiannau clir yn gysylltiedig â hyn, a gwelsom dystiolaeth fod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon ag asiantaethau gwahanol, gan alluogi ymatebion cyflym pan fydd pryderon am ddiogelwch neu lesiant plant. Yn yr un modd, caiff barn ymarferwyr perthnasol yn amlwg eu hystyried wrth asesu a chynllunio gofal.
- Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n galed i sicrhau dealltwriaeth a rennir o'r trothwyon a mynediad at wasanaethau. Ers yr arolygiad gwerthuso perfformiad, cafodd y canllawiau trothwy eu hadolygu a'u teitl erbyn hyn yw '*Gwneud pethau'n iawn i deuluoedd, cefnogaeth iawn -ar yr amser iawn*'. Mae'r canllawiau yn amlinellu ac yn darparu enghreifftiau o'r lefelau gwahanol o anghenion dan sylw ym mhob rhan o'r sbectrwm ac yn cefnogi ymarferwyr a rheolwyr i wneud penderfyniadau am ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc. Cynhaliwyd gweithdy amlasiantaeth yn ddiweddar gyda phob partner allweddol. **Gwelsom fod trothwyon yn cael eu defnyddio'n gyson ac roedd tystiolaeth i ddangos bod partneriaid yn eu deall. Gwelsom enghreifftiau hefyd o'r trothwyon yn cael eu hesbonio i deuluoedd.**

**Partneriaethau – Gwasanaethau Oedolion**

### Cryfderau

- Yn y rhan fwyaf o'r cofnodion gofal cymdeithasol y gwnaethom eu hadolygu, gwelsom dystiolaeth o ymarferwyr yn meithrin cydberthnasau gwaith proffesiynol â phobl yn seiliedig ar gydweithrediad a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig.
- Mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol yn Wrecsam, mae'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar atal a rheoli'r galw. Enghraifft dda o hyn yw'r hwb llesiant yng nghanol Wrecsam sy'n darparu gweithgareddau ataliol cymunedol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gweithgareddau llesiant.

### Meysydd i'w Gwella

- Gwelsom rai enghreifftiau o bobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty i welyau gofal llai dwys yn y gymuned. Mewn un achos, gwnaed hyn er mwyn galluogi'r teulu/gofalwr di-dâl i baratoi amgylchedd y cartref a dod o hyd i ofalwyr. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod aelodau o'r timau amlddisgyblaethol yn rhannu gwybodaeth mewn modd amserol ac yn parhau i gefnogi pobl i ganolbwyntio ar yr hyn sydd angen ei newid.** Pan nodir materion amgylcheddol fel rhwystrau, mae'n hanfodol bod y rhwystrau hynny'n cael eu nodi ac yr eir i'r afael â nhw mewn modd amserol er mwyn osgoi unrhyw oedi pellach wrth alluogi pobl i ddychwelyd adref yn unol â'u dymuniadau.
- Gwelsom nifer bach o enghreifftiau lle'r oedd y trefniadau gofal a chefnogaeth y cytunwyd arnynt wedi cael eu newid yn sylweddol gan y darparwr allanol heb unrhyw dystiolaeth ei fod wedi ymgynghori â'r awdurdod lleol. **Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r trefniadau presennol er mwyn sicrhau ei fod yn cael gwybod am newidiadau i'r trefniadau gofal a chefnogaeth a bod darparwyr yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt.** Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau y caiff anghenion newidiol pobl eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw cyn gynted â phosibl.

## Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r arferion cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol, er mwyn lledaenu gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 5. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau 50 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Adolygwyd 38 o gofnodion gofal cymdeithasol a gwnaethom olrhain 12 ohonynt.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r unigolyn sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, â phedwar unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau a/neu eu gofalwr di-dâl.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, â 28 o gyflogeion yr awdurdod lleol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr tîm.
- Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau goruchwylio staff.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 6. Y Gymraeg

Roedd y tîm arolygu yn cynnwys arolygydd a oedd yn siarad Cymraeg, gan alluogi AGC i ddarparu'r cynnig rhagweithiol o ran cynnal rhan o'r broses arolygu yn Gymraeg.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol yn yr achos hwn. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at yr archwiliad gwelliant hwn yn Gymraeg.

## 7. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

## 8. Rhestr termau

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl a/neu eu gofalwr. Nid yw'n cyfateb i fethiant i gyflawni dyletswydd statudol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg y gallai'r awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn sicrhau bod cyn lleied o anghenion critigol â phosibl i'w huwchgyfeirio. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn |

| | |
|---|---|
| | gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gweithio amlasiantaethol** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at atgyfnerthu'r trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Beth sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau 'Beth sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a beth y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr ei glywed ac y cânt wybod 'beth sy'n bwysig' iddynt. |